**<u>Ceisiadau i ffilmio yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</u>**

Llechi, wedi'u cloddio o lethrau'r mynyddoedd a lloriau'r dyffrynnoedd, neu o grombil y ddaear, a'u naddu gan chwys, gwaed ac ysgyfaint silicotig, oedd y deunydd ar gyfer bob dim yn ein cymunedau. Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a allforiwyd i farchnadoedd domestig a byd-eang, wnaeth 'doi'r byd'. Mae hi'n etifeddiaeth ffisegol y mae'n rhaid i ni ei gwarchod er mwyn ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Roedd y trefi, y pentrefi a'r cymunedau a ddatblygodd mewn ardaloedd chwareli yn gadarnleoedd i'r Gymraeg, ac maent yn parhau felly hyd heddiw; mae hon hefyd yn dirwedd fyw sy'n cyfrannu at ein lles economaidd.

Mae Llechi Cymru yn croesawu unrhyw gyfle i rannu ein tirwedd arbennig gyda chynulleidfaoedd newydd. Fodd bynnag, os ydych yn ceisio caniatâd i gynnal gwaith ffilmio ac ati, yn Safle Treftadaeth y Byd, dylech sicrhau'r hyn a ganlyn. Mae'n bwysig rhoi sylw i'r dirwedd arbennig, hanesyddol, ddiwylliannol hon a'r cymunedau sy'n byw ac yn gweithio yma.

Nid yw Llechi Cymru, sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd (Awdurdod Lleol) a'i bartneriaid, yn berchen ar yr holl dir yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, felly mae'n hanfodol cael caniatâd gan dirfeddianwyr perthnasol cyn ymgymryd ag unrhyw waith ffilmio neu ffotograffiaeth.

**Rhaid i gynhyrchwyr ffilm a theledu gael caniatâd tirfeddianwyr os ydynt yn bwriadu:**

- Ffilmio a/neu dynnu ffotograffau
- Defnyddio dronau

**Rhaid i gynhyrchwyr ffilm a theledu gael caniatâd gan yr awdurdod lleol os:**

- Ydynt yn bwriadu ffilmio a/neu dynnu ffotograffau ar briffyrdd cyhoeddus neu gerllaw
- Bydd eich gwaith arfaethedig yn rhwystro'r defnydd o le cyhoeddus mewn unrhyw ffordd (megis palmentydd neu lwybrau troed)

Mae rhagor o wybodaeth am ffilmio ar dir yr awdurdod lleol ar gael fan hyn:
**Ymholiadau ffilmio yng Ngwynedd**.

**I wneud cais i ffilmio yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, cysylltwch â: llechi@gwynedd.llyw.cymru.**

**Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:**

- Manylion cyswllt (rhif ffôn, cyfeiriad e-bost)
- Lleoliad ffilmio (cyfeirnod grid, cod post, what3words. Gallwch hefyd gynnwys mapiau neu luniau)
- Dyddiadau ac amseroedd ffilmio arfaethedig
- Nifer y bobl yn y criw ffilmio (e.e. cyflwynwyr, gweithredwyr camera, criw sain, rhedwyr, arlwyo, diogelwch ac ati)
- Nifer y cerbydau
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r cais

Os ydych yn gwybod yn union ble’r hoffech ffilmio, gweler isod am fanylion cyswllt uniongyrchol rhai lleoliadau. Os nad yw'r lleoliad yr hoffech ei ddefnyddio ar y rhestr isod, cysylltwch â llechi@gwynedd.llyw.cymru.

- **Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu, Llanberis**
  Lleoliad
  Gwefan
  Cysylltu
- **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Castell Penrhyn, Bangor**
  Lleoliad
  Gwefan
  Cysylltu
- **Parc Gwledig Padarn, Gilfach Ddu, Llanberis**
  Lleoliad
  Gwefan
  Cysylltu
- **Parc Cenedlaethol Eryri**
  Map
  Gwefan
  Cysylltu
- **Prifysgol Bangor**
  Lleoliad
  Gwefan
  Cysylltu

**Pethau i'w hystyried wrth wneud cais ffilmio:**

**Ceisiadau amserol**: er y gwnawn bob ymdrech i fodloni gofynion cwmnïau cynhyrchu teledu a ffilm, byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'n tirwedd – sy'n cynnwys y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio yma yn ogystal â'n hasedau hanesyddol – adeiladau, strwythurau ac ati. Er mwyn sicrhau tegwch i bawb dan sylw, bydd angen **o leiaf bythefnos o rybudd** ar gyfer ceisiadau ffilmio. Gellir gwrthod ceisiadau sydd heb lawer o rybudd neu rai munud olaf.

**Diogelwch**: mae asesiad risg ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y gwaith ffilmio yn gyfrifoldeb i'r cwmni cynhyrchu. Mae'n bosibl y bydd tirfeddiannwr yn gofyn am gopïau o ddogfennau perthnasol.

Gall yr amgylchedd hwn fod yn heriol – i gael gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel wrth ymweld â'r dirwedd lechi, cliciwch **yma**.

**Ffioedd**: mae'n bosibl y bydd ffi am ffilmio mewn safleoedd penodol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ôl trafod â thirfeddianwyr.

**Parcio**: gofynnwn i gwmnïau cynhyrchu ddefnyddio meysydd parcio cyhoeddus lle bynnag y bo modd. Gellir gweld lleoliadau parcio a ffioedd parcio 'talu ac arddangos' yr awdurdod lleol **fan hyn**.

**Parchu Safle Treftadaeth y Byd**: mae rhan sylweddol o Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei diogelu'n statudol ac efallai y bydd angen Caniatâd Heneb Gofrestredig ar gyfer gwaith penodol. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth: Caniatâd heneb gofrestredig | Cadw. Awgrymwn i chi gysylltu â Cadw yn uniongyrchol i gael trafodaeth gynnar a chyngor pellach os yw'n bosibl y bydd unrhyw waith angen y caniatâd hwn: henebionCofrestredig@llyw.cymru.

**Parchu Cymunedau Gwynedd**: gofynnwn yn garedig i bob criw ffilmio barchu cymunedau'r ardal, i barcio'n ystyriol ac i fynd â'ch sbwriel adref gyda chi. Efallai eich bod mewn sefyllfa i gynnig rhywbeth i gymuned leol yn gyfnewid am ffilmio yno? Mae enghreifftiau blaenorol o gefnogaeth hael yn cynnwys:

- Cyfraniadau ariannol i sefydliadau lleol (megis mentrau cymdeithasol, cynghorau cymuned neu elusennau lleol)
- Cyfleoedd profiad gwaith i drigolion lleol
- Gweithdai ar gyfer grwpiau lleol
- Cyfraniadau tuag at waith cadwraeth lleol/gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig hanesyddol

Chwilio am rai syniadau ar gyfer unrhyw un o'r uchod? E-bostiwch ni am awgrymiadau: llechi@gwynedd.llyw.cymru.

**Gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol am Safle Treftadaeth y Byd:**

| | |
|---|---|
| Enw | Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru |
| Ffurf fer | Llechi Cymru / Wales Slate |
| Chwe darn cydrannol | 1. Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Borth Penrhyn<br>2. Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig<br>3. Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle<br>4. Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor, y Rheilffyrdd a'r Felin<br>5. Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog<br>6. Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tallyllyn |
| Gwefan | www.llechi.cymru |
| Gwefan UNESCO | Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - Canolfan Treftadaeth y Byd UNESCO |
| Y Cyfryngau cymdeithasol | @llechicymru<br>(Instagram, Facebook, Bluesky, YouTube) |
| Metadata | #llechicymru #walesslate |